Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU
BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR Rhifyn 5 - Rhagfyr 2006

Fe gyhoeddwyd mai 31ain Awst 2007 yw'r dyddiad cau terfynol ar gyfer hawlio pob taliad cyfuno

Nodyn Y Golygydd

Croeso i rifyn diwethaf 2006 o'r cylchlythyr. Yn y rhifyn yma rydym yn diffinio coetiroedd o dan Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG), manylu cymelliadau i asiantau i hyrwyddo Adfer ein Treftadaeth Anghofiedig a gweld lansiad y llyfrgell gyfeirio CGG newydd ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC). Ceir hyn, a llawer mwy felly darllenwch ymlaen.

Taliadau cyfuno Cynlluniwr Rheoli

Yn wreiddiol dywedodd CCC (Comisiwn Coedwigaeth Cymru) y dylid hawlio taliadau cyfuno (i fyny at £2,000 y Cynlluniwr) o fewn 1 blwyddyn o lofnodi'r Cytundeb Fframwaith. Oherwydd i wahanol Gynllunwyr dderbyn eu cytundebau ar wahanol adegau rydym wedi penderfynu gosod dyddiad cau terfynol ar 31 Awst 2007 ar gyfer hawlio pob taliad cyfuno. Mae'n rhaid i bob Cynlluniwr hawlio taliadau erbyn y dyddiad hwn. Cofiwch, mae cymhwyster ar gyfer taliadau yn ddibynnol ar werth y Grant Paratoi Cynllun ar gyfer cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo. Gellir gwneud cais am daliadau cyfuno drwy ddanfon anfoneb i'r Tîm Gwasanaethau Technegol yng Ngogledd Cymru. Nid oes eisiau Rhif Cyfeirnod Cwsmer (RCC).

Pryd nad yw coetir yn goetir?

Mae llawer o Gynllunwyr wedi gofyn am ddiffyniad coetir o fewn CGG (Coetiroedd Gwell i Gymru). Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at reol CGG sy'n nodi bod yn rhaid cynnwys yr holl goetir ar eiddo o fewn y cynllun rheoli.

Rheol yr hen Cynllun Grant Coetir (CGC) oedd bod yn rhaid i goetiroedd gael gorchudd canopi mwy nag 20%. Hefyd nodwyd yr angen gan CGC i holl ardaloedd plannu newydd fod yn lletach na 15 medr ond doedd dim trothwy ar gyfer coetiroedd mewn bodolaeth eisoes, ac mae CCC yn teimlo ei bod yn fantais i ddod ag ardaloedd culach i mewn i'r cynllun. Felly at bwrpas CGG mae'r trothwy hwn wedi ei ostwng a phenderfynwyd na fydd CCC yn mynnu ar ardaloedd llai na 0.1 hectar ac yn gulach na 12 medr yn cael eu cynnwys yn y cynllun rheoli. (Ni ellir mapio ardaloedd llai na

Ydy amrywiaeth o goetiroedd ar safle = sawl cais CGG?

Fe atebir eich cwestiynau yn y cyhoeddiad yma

Cymorth ariannol i asiantau sy'n marchnata prosiectau Adfer ein Treftadaeth Anghofiedig ar ran CCC

0.1 hectar o fewn system Ar-Lein G a Th er y gellir eu hadnabod fel man ar y map.) Os yw'r Cynlluniwr yn awyddus i gynnwys ardaloedd sy'n llai na'r trothwyon hyn, efallai oherwydd bod ganddynt werth amgylcheddol neu gymdeithasol penodol, yna bydd angen iddynt gyflwyno eu hachos i'r Swyddog Coetiroedd **cyn** cyflwyno'r cais. Bydd CCC yn mapio'r holl ardaloedd coetir a ddangosir ar y map cais ond nid yw'n gwarantu ariannu'r ardaloedd hynny sy'n llai na'r trothwy oni bai y cytunwyd arnynt gyda'r Swyddog Coetiroedd. Felly hefyd, os yw'r Cynlluniwr am adael ardaloedd coetir allan o'r cynllun (sy'n uwch na'r trothwy) yna mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hachos i'r Swyddog Coetiroedd **cyn** cyflwyno cais. Fel hyn gall y Cynlluniwr a'r Swyddog Coetiroedd gytuno ar yr hyn sy'n goetir a'r hyn nad yw'n goetir ac mae'r cais yn gywir pan y'i cyflwynir.

Un cais ar gyfer pob eiddo

Fel yn achos y pwnc uchod, mae Cynllunwyr wedi ceisio arweiniad pellach ynglŷn â rheol CGG am yr holl goetiroedd ar eiddo yn cael eu cyflwyno mewn un cais. Yn y lle cyntaf mae'r gair eiddo'n bwysig am fod y rheol yn cyfeirio at yr holl goetiroedd ar un eiddo ac nid yr holl goetiroedd o dan un perchennog. Felly, lle mae mwy nag un eiddo gan berchennog, p'un ai coetiroedd, fferm neu ystâd ydynt, gallant gyflwyno un cais am bob un eiddo. Fodd bynnag, dylid cyflwyno nifer o goetiroedd bychain (llai na 10 hectar yr un) sydd yn eiddo i'r un perchennog, sydd o fewn yr un ardal awdurdod lleol, yn yr un cais. Lle mae coetiroedd wedi eu rhannu a'u gwerthu i nifer o berchnogion, gall CCC fynnu bod pob rhan o'r eiddo'n cael eu cynnwys mewn un cais. Disgresiwn y Swyddogion Coetiroedd fydd yn penderfynu hyn.

Arweiniad ynghylch helwriaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau newydd ar ryddhau cynaliadwy adar hela. Cewch y ddogfen ynghlwm wrth y cylchlythyr hwn. Bydd disgwyl i gynlluniau rheolaeth CGG ddilyn cyfarwyddiadau arfer gorau'r ddogfen hon. Hefyd cewch gyswllt i'r ddogfen hon ar ei gwefan yn:
http://www.gct.org.uk/conservationguide intro.asp?ImageId=11
(Mae'r ddogfen ar gael i'w darllen a'i hargraffu ond nid i'w lawrlwytho)

Gwariant Adfer ein Treftadaeth Anghofiedig (ROFI)

Mewn rhifynnau blaenorol o gylchlythyr CGG soniwyd am brosiect Amcan 1 a elwir yn Adfer ein Treftadaeth Anghofiedig (ROFI) sy'n cynnig grantiau ar gyfer y gwaith o adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Hen Goetiroedd (PSHG) yn goetir cynhenid. Mae'r prosiect hwn yn gorffen ym mis Mawrth 2008 ac mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r arian sydd ar gael. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni hyn mae CCC yn cynnig cymorth i asiantau i'w helpu i farchnata'r cynllun ar ein rhan. Y rheolau ar gyfer cymorth yw:

- £50 yr hectar i'w dalu'n uniongyrchol i'r asiant am bob cynllun PSHG (Planhigfeydd ar Safleoedd Hen Goetiroedd) a weithredir yn ardal Amcan 1.
- Gellir hawlio'r arian ar ôl gweithredu'r gwaith yn unig. Mae'n rhaid i asiantau gytuno â'r Swyddog Coetiroedd ynglŷn â'r hyn a

Wedi cytuno ar drothwyon ar gyfer Swyddogion Coed Cymru sy'n gweithio o fewn CGG



olygir wrth 'gweithredu', ond fel rheol bydd CCC yn disgwyl cais am 80% o'r arian grant ar gyfer gwaith ar y safle.
- Ardaloedd dros 4 hectar yn unig sy'n gymwys ar gyfer y taliad hwn.
- Mae taliad uchafswm o £1,000 ar gyfer pob cynllun.
- Mae'n rhaid gweithredu pob cynllun a hawlio'r grant cyn Mawrth 2008.
- Mae'n rhaid i asiantau roi manylion amlinellol unrhyw safle sydd am fanteisio ar y taliadau hyn i'r CCC cyn 1 Ebrill 2007 – cysylltwch â Tricia Knight yn y Swyddfa yng Ngogledd Cymru neu e-bostiwch tricia.knight@forestry.gsi.gov.uk

Gwybodaeth ddefnyddiol arall:

- Does dim angen gwneud cais ar wahân ar gyfer arian Adfer ein Treftadaeth Anghofiedig (ROFI). Defnyddiwch proses gais CGG.
- Nid oedd rhaid i'r safle fod yn 100% safle cynhenid. Bydd CCC yn ystyried safle sydd wedi ei droi yn ôl yn goetir cynhenid lle mae mwy na 50% o goed cynhenid i'r safle yn y canopi.
- Mae grantiau 75% yn dal ar gael ar gyfer safleoedd PSHG.
- Mae safleoedd sy'n cael eu hadfer dros amser, yn dal yn gymwys ar gyfer arian Adfer ein Treftadaeth Anghofiedig.
- Ymhlith y gweithrediadau cymwys mae llwybrau, teneuo nad yw'n economaidd a rheoli planhigion ymledol.

Y diweddaraf ar Goed Cymru o fewn CGG

Mae CCC a Choed Cymru wedi cytuno ar drothwyon ar gyfer Swyddogion Coed Cymru sy'n gweithio o fewn CGG. Yn gyffredinol fel rheol ni fydd staff Coed Cymru yn gweithio ar gynlluniau CGG lle mae cyfanswm y coetir conwydd ar eiddo yn fwy na 4 hectar. Mae'r trothwy hwn yn cynnwys PSHG sydd heb eu hadfer yn goetir cynhenid. Nid oes trothwyon ar gyfer coetiroedd llydanddail ond bydd Coed Cymru'n trosglwyddo safleoedd â choed o werth uchel ymlaen at Gynllunwyr y sector preifat. Hefyd, nid oes trothwyon lle mae Coed Cymru yn gweithio ar safleoedd dan berchnogaeth prif bartner ariannu, Awdurdod Lleol neu Barc Cenedlaethol, neu ar gais staff CCC. Gosodwyd trothwy o 2 hectar ar gyfer cynlluniau plannu newydd.

Gyda chau Cynlluniau Coetir Cynhenid datblygwyd dull newydd ar gyfer darparu cefnogaeth i ffermwyr **Tir Gofal.** Bellach ni fydd gorfodaeth i gael cynllun rheoli. Yn ei le bydd Swyddog Coed Cymru'n ymweld â'r ffarm a chynnig arweiniad ar reoli coetir. Os yw'r ffermwr yn dangos diddordeb mewn rheoli coetir yna mae ganddo'r dewis i ymuno â CGG. Bydd Coed Cymru yn trosglwyddo pob safle dros y trothwy (nodwyd uchod) i Gynllunwyr y sector preifat, ond byddant yn delio â'r safleoedd llai eu hunain. Telir am waith ffensio gan Tir Gofal ac felly hefyd gweithrediadau coetir eraill sydd yn llai na £2,000 mewn cymorth grant. Felly ni fydd CCC yn disgwyl gweld cynlluniau llai yn dod i mewn i CGG.

Cynhyrchir fersiwn o Gyfrifwr Grant Gwella Coetiroedd (GGC)ar gyfer cynlluniau lle mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn dewis cadw Coed Cymru fel asiant. Yn y fersiwn hwn o'r Gyfrifwr bydd y costau rheoli ac arolygu wedi eu tynnu allan ac ni fydd gan y sawl sy'n gwneud cais yr hawl i fynnu'r rhain.

Dyma rai cynghorion a all fod o ddefnydd i chi pan fyddwch yn paratoi eich mapiau ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru.

Amserlen 2006 - 2007 ar gyfer dewis cynllunwyr rheoli ac Aseswyr Arbenigol

Materion mapio - cyngor defnyddiol ar sut i baratoi mapiau

Cais am fap - gallwch ofyn am fap ar raddfa o 1:10,000; 1:5,000 ac/neu 1:2,500. Mae'n well gennym ddigido o'r raddfa 1:2,500 gan fod y manylion yn fwy eglur. Sylwer os gwelwch yn dda, fod gwefan CCC hefyd yn cynnwys ffurflenni cais am fapiau copi caled a digidol.

Pan fyddwch yn cyflwyno mapiau, a fyddech cystal â sicrhau bod yr holl goetiroedd o fewn yr eiddo wedi cael eu cynnwys. Peidiwch â thorri coetir i ffwrdd ar ymyl y map papur. Mae'n rhaid i bob bloc unigol o goetir gael ei farcio'n gywir â phin ysgrifennu coch main a phin goleubwyntio melyn. Os nad ydym yn siŵr ble mae'r ffin goch ar y map, byddwn yn gosod y ffin yn unol â'r data ar ein ® Prif Fap ® Arolwg Ordnans.

A fyddech cystal â chadarnhau bod yr ardal wedi'i digido (mapio) yn gywir drwy edrych ar y Porwr IMF, cyn gynted ag y bydd yr achos wedi cyrraedd statws Cynllun Sylfaen Cymru FR yn "My Work". Rhowch wybod i'r Swyddog Gwasanaeth Technegol sy'n ymdrin â'r achos os oes unrhyw gywiriadau i'w gwneud. Mae'n rhaid i'r ardaloedd wedi'u mapio fod yn gywir gan y bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r grant.

Os ydym wedi gwrthod eich cais oherwydd problem gyda'r mapiau, peidiwch â chreu cynllun newydd a gofyn am rif newydd. Yn lle hynny, a fyddech cystal â phwyso'r botwm 'cyflwyno/submit' ar eich cais gwreiddiol, a bydd hyn yn anfon y cais yn ôl i'n prif sgrin. Pan fo is-adrannau yn rhannu trac fel ffin, byddwn yn digido (mapio) i lawr canol y trac.

Amserlen 2006 - 2007 ar gyfer dewis cynllunwyr rheoli ac Aseswyr Arbenigol

Mae'r amserlen ganlynol yn rhoi'r dyddiadau terfynol ar gyfer cyflwyno eich cais i ddod yn Gynlluniwr Rheoli ac/neu Aseswr Arbenigol, ynghyd â gwybodaeth am yr asesiadau maes lle mae'r Panel Dewis yn gofyn am hynny.

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau i ddod yn Gynlluniwr Rheoli neu Aseswr Arbenigol
31ain Rhagfyr 2006
30ain Mehefin 2007
31ain Rhagfyr 2007
Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Panel Dewis Coetiroedd Gwell i Gymru
23ain Ionawr 2007
4ydd Medi 2007
Ionawr 2008
Asesiadau Maes (lle y bo angen)
Ecoleg– i'w trefnu ar gyfer hanner olaf mis Mai neu fis Mehefin 2007
CGD/CCF – i'w trefnu ar hanner olaf mis Mai neu fis Mehefin 2007
PSCH/PAWS – i'w trefnu ar gyfer hanner olaf mis Mai neu fis Mehefin 2007
Cymdeithasol - nid oes dim wedi'i drefnu ar hyn o bryd

Ymholiadau cyffredinol am CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu ewch i'r wefan ar www.forestry.gsi.gov.uk

Ymholiadau technegol e-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk

Dogfennau CGG – Llyfrgell Gyfeirio CGG

Crëwyd Llyfrgell Gyfeirio CGG newydd ar wefan CCC. Cynghorwyd Cynllunwyr Rheoli yn daer i wirio hon yn rheolaidd am ddogfennau newydd sy'n cael eu cyhoeddi ar y wefan fel a phan maent yn barod. Hefyd mae llawer o ddogfennau ar gael yng Nghymraeg ac mae yna raglen gyfredol o gyfieithu ar y gweill gan gynnwys diweddaru detholiad o ffurflenni a dogfennau ategol.

Asesiadau CGG CGD a PSHG

Dylai Cynllunwyr Rheoli fod yn ymwybodol bod rhaid iddynt gytuno ar yr holl asesiadau arbenigol gyda'r Swyddog Coetiroedd yn ystod llunio'r Cynllun Sylfaenol.

Yn enwedig, gydag asesiadau Coedwig Gorchudd Di-dor CGD dylai'r Cynlluniwr gyflwyno'r sgôr sadrwydd (rhan gyntaf yr asesiad) cyn cymeradwyo Cynllun Sylfaenol. Ni fydd yr ardaloedd hynny sy'n methu'r sgôr sadrwydd yn gymwys ar gyfer asesiad llawn. Rhaid i asesiadau PSHG gynnwys ardaloedd sydd ar y Rhestr Hen Goetiroedd ond cofiwch, os oes gan yr ardal fwy na 50% o goed cynhenid i'r safle yn y canopi bydd CCC yn ei chategoreiddio fel coetir cynhenid ond nid PSHG. Rhaid cael cytundeb y Swyddog Coetiroedd yn y Cynllun Sylfaenol ynglŷn ag asesiadau PSHG ar ardaloedd nad ydynt yn ymddangos yn y rhestr.

Dylid cysylltu tystiolaeth gefnogol (e.e. taflen sgorio sadrwydd, lluniau o nodweddion PSHG ayyb) i'r Cynllun Sylfaenol gan ddefnyddio'r cyfleusterau sydd o dan 'Asesiadau Arbennig'. Er mwyn cydio eitem i gefnogi asesiad arbennig, rhowch yr asesiad arbennig, gan gynnwys disgrifiad, i mewn (ar gyfer PSHG a CGD mae angen yr ardal amcangyfrifiedig hefyd). Cyflwynwch yr asesiad ac yna cliciwch ar lwytho i fyny/gweld dogfennau. Dewiswch o'r ddewislen gwympo (sy'n rhestru'r asesiadau arbennig rydych wedi eu bwydo i mewn). Rhowch ddisgrifiad i mewn. Porwch ffeil. Cliciwch ar lwytho i fyny. Gellir darllen ffeiliau oddi ar y sgrin hon. Cymeradwyir ffeiliau ynghynt os oes yna dystiolaeth dda i'w cefnogi.

Adroddiad Rhanddeiliaid

Rhaid i bob Cynllun Sylfaenol gael adroddiad rhanddeiliaid ynghlwm wrtho. Anfonwyd copïau o'r adroddiad (dogfen CGG cyfeirnod SA 09) i'r holl Gynllunwyr yn ddiweddar. Hefyd fe roddir yr adroddiad yma ac esiampl ar sut i'w gwblhau yn Llyfrgell Gyfeirio CCC ar y wefan.

Plannu newydd

Bydd CCC yn cyhoeddu manylion dros dro ynglŷn â grantiau plannu newydd ar y wefan cyn y Nadolig. Fe anfonwn ddolen gyswllt atoch cyn gynted ag y byddwn wedi gwneud hyn.

Rhifyn nesaf: Ionawr 2007

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales